# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 15/12/2025 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 16/12/2025 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 23/12/2025 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Aelod Cabinet Tai ac Eiddo)

**PWNC**
Gwaredu diddordeb rhydd-ddaliadol y Cyngor mewn llain o dir sydd wedi'i leoli ar gyrion Pen Y Banc, Borth y Gest.

**PENDERFYNIAD –**

Caniatáu gwaredu diddordeb rhyng-ddaliadol y Cyngor mewn llain o dir a leolir ym Mhen Y Banc ym Mhorth y Gest ar delerau ac amodau i'w pennu gan Bennaeth yr Adran Tai ac Eiddo.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd a'r Aelod Lleol.

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Paul Rowlinson |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Efan Thomas MRICS<br>Uwch Syrfëwr Stadau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 15 / 12 / 2025 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | P. J. Row |

**Pwnc :**
Gwaredu diddordeb rhydd-ddaliadol y Cyngor mewn llain o dir sydd wedi'i leoli ar gyrion Pen Y Banc, Borth y Gest.

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**
Caniatáu gwaredu diddordeb rhydd-ddaliadol y Cyngor mewn llain o dir a leolir ym Mhen Y Banc ym Mhorth y Gest ar delerau ac amodau i'w pennu gan Bennaeth yr Adran Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**
Er mwyn galluogi'r Cyngor i drosglwyddo'r diddordeb rhydd-ddaliadol yn y llain o dir a ddangosir ag ymyl coch ar y cynllun atodedig sydd yn weddill ei anghenion i'r Cyngor, yn uniongyrchol i berchennog cyffiniol.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**
Mae'r perchennog cyfagos wedi gwneud cais i brynu'r darn o dir a ddangosir ag ymyl coch ar y cynllun. Mae'r tir yn weddill i ofynion gweithredol y Cyngor, ac ystyrir bod y tir o fwy o werth i'r darpar brynwr nag unrhyw brynwr arall, a fydd yn cael ei adlewyrchu yn y pris prynu.
Nid oes unrhyw fwriad i dderbyn llai na gwerth y farchnad am y tir.


**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**
Prif Swyddog Cyllid – Dewi Morgan – “Gan nad oes bwriad i werthu am lai na phris y farchnad, nid oes gennyf wrthwynebiad i’r gwerthiant o safbwynt priodoldeb ariannol.”

Swyddog Monitro – Iwan Evans – “Dim sylwadau i’w hychwanegu os safbwynt priodoldeb”

Aelod/au Lleol (Cynghorydd Gwilym Jones) – Dim gwrthwynebiad i’r pryniant.




# Land adjoining 10 Glyn Terrace, Borth Y Gest

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 Arolwg Ordnans 100023387 - Cyngor Gwynedd